# Hunanwerthusiad o lywodraethu, darparu gwasanaethau a hyfywedd ariannol – 2021/22




unitedwelsh.com

# Cynnwys

1. Arweinyddiaeth strategol a threfniadau llywodraethu 3

2. Trefniadau cadarn i reoli risg a rhoi sicrwydd 4

3. Darperir gwasanaethau o ansawdd uchel i denantiaid 5

4. Caiff tenantiaid eu grymuso a'u cefnogi i lywio a dylanwadu ar wasanaethau 7

5. Mae rhenti a thaliadau gwasanaeth yn fforddiadwy 8

6. Dull strategol o ymdrin â gwerth am arian 9

7. Cynllunio a rheolaeth ariannol 10

8. Caiff asedau a rhwymedigaethau eu rheoli'n dda 10

9. Llety o ansawdd da 12

Rydym yn **adeiladu** cartrefi, yn **creu** cymunedau ac yn **trawsnewid** bywydau.

# Hunanwerthusiad o lywodraethu, darparu gwasanaethau a hyfywedd ariannol – 2021/22

Dyma grynodeb o'r graddau rydym yn llwyddo i gyrraedd y Safonau Rheoleiddio sy'n nodi'r hyn y disgwylir i ni ei gyflawni o ran Llywodraethu, Darparu Gwasanaethau a Hyfywedd Ariannol.

Mae wedi ei ddiweddaru ers yr adroddiad interim Mawrth 2022 i adlweyrchu ein canlyniadau am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn dangos i ba raddau rydym wedi cyflawni ein cynlluniau strategol yn erbyn y risgiau a wynebir gennym, ac mae'n disgrifio ein trefniadau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a'n trefniadau llywodraethu. Felly, mae'r ddau adroddiad yn ategu ei gilydd. Cafodd Adroddiad Blynyddol 2021/22 ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022.

Ar ddiwedd y crynodeb hwn mae ein Cynllun Gwella, sy'n nodi'r meysydd lle rydym yn bwriadu gwneud gwelliannau dros y flwyddyn nesaf.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y Safonau Rheoleiddio ar wefan Llywodraeth Cymru (Cymdeithasau tai sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru: fframwaith rheoleiddiol | LLYW.CYMRU)

## 1. Arweinyddiaeth strategol a threfniadau llywodraethu

Mae ein Strategaeth yn nodi ein gweledigaeth ac yn disgrifio pwy ydym a sut mae ein gwerthoedd yn llywio'r ffordd rydym yn gweithio. Dewiswyd ein gwerthoedd gan ein staff; cawsant eu llunio ar ffurf cwmwl geiriau mewn cynhadledd staff.

Mae gan Grŵp United Welsh drefniadau llywodraethu clir sy'n nodi sut y caiff pob sefydliad ei lywodraethu. Mae United Welsh yn cymhwyso Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru, ac nid oes unrhyw wyro sylweddol oddi wrth y Cod hwnnw.

Y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol sy'n darparu'r arweinyddiaeth. Gall y Bwrdd gynnwys 12 o aelodau ac, ar hyn o bryd mae 11 o aelodau, y mae dau ohonynt yn aelodau o'r Tîm Gweithredol.

Caiff cymysgedd sgiliau a phrofiad aelodau'r Bwrdd ei adolygu'n gyson er mwyn sicrhau bod gennym gymysgedd priodol ar gyfer cyflawni Ein Strategaeth, a bod y cydbwysedd o ran cefndir a phrofiad yn gyson â'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt. Ar hyn o bryd, o'r 11 o aelodau, mae pedwar yn fenywod (36%); mae un unigolyn o grŵp ethnig lleiafrifol (9%); ac mae gan un unigolyn anabledd (9%). Yr oedran cyfartalog yw 54 oed, ac mae oedrannau'r aelodau yn amrywio o 35 i 74 oed. Hyd cyfartalog deiliadaeth yw 4.2 mlynedd.

Wrth fynd ati i wneud penderfyniadau, mae'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol yn ystyriol o'u heffaith ar grwpiau gwahanol o bobl, ac o'r risgiau a all godi neu'r risgiau y mae camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â nhw. Un grŵp pwysig o bobl y gall rhai penderfyniadau effeithio arnynt yw ein tenantiaid. Wrth i fwy o gysylltiadau ddigwydd ar-lein, rydym yn ystyried sut i wella'r ffordd y gall tenantiaid ddylanwadu ar benderfyniadau strategol.

Maes arall rydym yn anelu at ei wella yw'r ffordd rydym yn mesur ac yn dangos ein hymrwymiad mewn perthynas â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Rydym wedi dechrau gweithio i wella amrywiaeth ein gweithlu, ond mae angen i ni wneud mwy. Mae ein Cynllun Gweithredoedd nid Geiriau yn dangos y cynnydd rydym yn ei wneud o ran mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail ethnigrwydd a hil.

## 2. Trefniadau cadarn i reoli risg a rhoi sicrwydd

Mae United Welsh yn ceisio rheoli risg yn hytrach na'i hosgoi, gan leihau ein hamlygiad i golled o unrhyw weithgarwch ond gan sicrhau'r budd mwyaf i ni a'n cwsmeriaid a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Mae gennym drefniadau cadarn ar gyfer rheoli risg a chaiff y trefniadau hynny eu gwirio bob blwyddyn gan ein harchwilwyr mewnol annibynnol. Mae gan y Bwrdd Bwyllgor Archwilio a Risg sy'n derbyn adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol ar amrywiaeth o feysydd gwasanaeth. Mae'r adroddiadau hynny yn rhoi barn ynghylch a yw'r rheolaethau ar gyfer rheoli risgiau yn gweithredu'n gywir, ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau lle y bo angen. O ganlyniad, mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd ynghylch y ffordd y caiff risgiau eu rheoli a'r ffordd y mae rheolaethau mewnol yn gweithredu.

Mae'r Tîm Gweithredol yn adolygu ein mapiau o brif risgiau a sicrwydd yn rheolaidd. Mae gan feysydd eraill o'r busnes eu mapiau risgiau a sicrwydd eu hunain. Caiff Iechyd a Diogelwch a Diogelu eu monitro'n benodol gan banel arbennig.

Mae cynlluniau parhad busnes ar waith gennym sy'n nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud os bydd digwyddiad yn achosi bygythiad sylweddol i'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau. Ymhlith yr enghreifftiau mae ein Cynllun Tywydd Eithafol a'n Cynllun Technoleg Gwybodaeth. Mae ein prif Gynllun Adfer ar ôl Trychineb yn cael ei adolygu ar hyn o bryd er mwyn ystyried yr hyn a ddysgwyd wrth ddarparu gwasanaethau yn ystod y pandemig.

## 3. Darperir gwasanaethau o ansawdd uchel i denantiaid

Mae United Welsh yn darparu ystod eang o wasanaethau a/neu gartrefi i amrywiaeth o grwpiau cwsmeriaid neu gleientiaid. O ran llety, mae hyn yn cynnwys anghenion cyffredinol, cynlluniau â chymorth, cynlluniau i bobl hŷn, hosteli, a Gofal Ychwanegol. Ymhlith y gwasanaethau eraill a ddarperir mae cymorth fel y bo'r angen, cyfleoedd o ran swyddi a hyfforddiant, gweithgareddau sy'n annog cysylltiadau rhwng cenedlaethau, gweithgareddau i leihau achosion posibl o unigrwydd ac ynysigrwydd ymhlith pobl hŷn, gweithgareddau yn ystod gwyliau ysgol a chymorth banciau bwyd.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022, darparwyd 43 o gartrefi rhent cymdeithasol newydd 82 ohonynt yn gartrefi as gyfer pobl ag anghenion cyffredinol ac 20 yn gartefi cymorth,, wedi'u lleoli ledled Caerffili, Caerdydd a Bro Morgannwg. Rydym nawr yn dechrau gweld effaith yr oedi pan roddwyd y gorau i weithio ar safleoedd yn 2020 a 2021, ynghyd ag anawsterau o ran dod o hyd i weithwyr a deunyddiau. Rhoddir cyhoeddusrwydd i safleoedd a fydd yn dod yn fuan ar ein gwefan.

Mae Tai Ffres, sef opsiwn tai ar gyfer pobl ifanc nad yw ar gael yn unrhyw le arall, wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â Llamau. Datblygwyd yr opsiwn hwn ar ôl nodi'r anawsterau y mae pobl ifanc yng Nghymru yn eu hwynebu o ran cael mynediad at lety sefydlog, fforddiadwy o ansawdd da, ac ar ôl sylweddoli nad ydynt yn cael eu cefnogi gan lwybrau tai cyfredol. Bydd y gwasanaeth hwn yn unigryw i Gymru a'r DU.

Sefydlwyd Bwrdd Ieuenctid ar gyfer Tai Ffres a chynhaliwyd proses benodol i recriwtio unigolion o gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn helpu i lywio'r gwasanaeth.

Mae diogelwch pobl yn eu cartrefi yn bwysig iawn i ni. Rydym yn cynnal gwiriadau rheolaidd ar y pum prif faes diogelwch: nwy, trydan, asbestos, y risg o dân a hylendid dŵr.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2022, roedd gan 99.98% o gartrefi dystysgrif diogelwch nwy ddilys, roedd gan 99.98% o gartrefi dystysgrif drydanol ddilys, ac roedd 100% o archwiliadau wedi'u cynnal ar safleoedd lle roedd angen cynnal asesiad o'r risg o dân, neu archwiliad asbestos neu hylendid dŵr.

Rydym wrthi'n cynnal rhaglen sylweddol o waith gwella diogelwch tân ar hyn o bryd. Cymeradwyodd y Bwrdd wariant ychwanegol o £2.3m ym mis Gorffennaf 2021 i dalu am weithgarwch diogelwch tân a gwaith i gael gwared ar asbestos.

Yn Byw'n Dda, ein gwasanaeth ar gyfer pobl hŷn, caiff asesiadau o'r risg o dân sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn eu cwblhau bob tro y bydd rhywun yn cofrestru a chânt eu hadolygu bob blwyddyn gyda'r tenantiaid er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel yn eu cartrefi.

Lle mae gennym gydberthynas ag asiantiaid rheoli yn rhai o'n heiddo, rydym wedi parhau i gynnal adolygiadau er mwyn sicrhau eu bod yn rheoli'r adeiladau yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion iechyd a diogelwch / diogelwch tân. Os na fydd asiant rheoli yn cydymffurfio, caiff cynlluniau gweithredu clir eu rhoi ar waith a phennir amserlenni ar gyfer eu cyflawni.


Dechreuodd rhaglen trawsnewid digidol yn 2020 sydd wedi canolbwyntio ar gynnig ffyrdd mwy effeithlon ac effeithiol o dalu rhent, hunanwasanaethu, a gwneud cais am wasanaethau neu gymorth. Roedd hyn yn cynnwys lansio TED, yr ap i denantiaid, lle gall tenantiaid gael mynediad at wasanaethau digidol gan gynnwys talu rhent ar-lein, atgyweiriadau drwy hunanddiagnosis a modiwl Swyddi a Hyfforddiant.

Ar ddechrau 2022, cyflwynwyd fersiwn 'fyw feddal' o borth i ymgeiswyr er mwyn digideiddio ac awtomeiddio'r broses gwneud cais a'r broses cyn tenantiaeth i ymgeiswyr hyd at y pwynt lle maent yn llofnodi cytundeb tenantiaeth â ni.

Ers mis Ionawr 2021, rydym wedi bod yn canolbwyntio unwaith eto ar gasglu gwybodaeth gywir am denantiaid. Mae'r gwaith hwn yn parhau, gyda ffocws ar gyfleusterau hunanwasanaethu i denantiaid drwy TED, yr ap i denantiaid, er mwyn sicrhau bod y cyfryw ddata yn gyfredol ac yn berthnasol. Sefydlwyd Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn 2021 i werthuso'r data hyn a sicrhau eu bod yn dylanwadu ar y gwaith o gynllunio gwasanaethau.


Rydym wedi buddsoddi cryn dipyn o adnoddau yn y broses o gasglu data ar foddhad tenantiaid drwy drydydd parti annibynnol, arbenigol (Acuity) sy'n cynnal o leiaf 75 o arolygon ffôn y mis o blith hapsampl o denantiaid. Mae hyn yn sicrhau y gellir cynnal dadansoddiad manwl o'r canlyniadau a'r sylwadau.

**Prif ddata ar gyfer 2022:**



**Boddhad cyffredinol â gwasanaethau 80%**

(Canolrif landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru 2022: 83%)



**Boddhad cyffredinol â'u cartref 80%**

(Canolrif landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru 2022: 83%)

Yn ystod 2021/22, daeth 88 o gwynion i law. Roedd 70 ohonynt yn rhai ffurfiol a chafodd dwy eu huwchgyfeirio i'r Ombwdsmon (ni chafodd unrhyw un eu cadarnhau).

Rydym wrthi'n sefydlu Grŵp Barn Tenantiaid ('Tenant Insight Group') i ystyried y canlyniadau hyn a gweld sut y gallant gael eu defnyddio, ar y cyd â gwybodaeth arall sydd gennym am ansawdd y gwasanaethau a ddarperir, i wella gwasanaethau.

Rydym yn rhoi gwybod i denantiaid am ein perfformiad drwy anfon crynodeb o berfformiad blynyddol bob blwyddyn. Yn y dyfodol, bydd y crynodeb hwnnw yn cynnwys ein hunanwerthusiad hefyd. Mae gwybodaeth am ein perfformiad a'n Hadroddiad Blynyddol llawn ar gael ar ein gwefan hefyd.

## 4. Caiff tenantiaid eu grymuso a'u cefnogi i lywio a dylanwadu ar wasanaethau

Rydym yn cydnabod bod angen i ni newid y ffordd rydym yn ymgysylltu â thenantiaid ac rydym wedi dechrau ar waith i ddatblygu Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid newydd ac i ddatblygu ein cymuned o denantiaid sy'n cymryd rhan. Cynigir amrywiaeth o gyfleoedd eisoes i denantiaid gymryd rhan yng ngweithgareddau United Welsh ar lefel leol.

**Yn eu plith mae:**

- Gweithgareddau'r tîm buddsoddi cymunedol
- Cronfa Gyda'n Gilydd (Grantiau mentrau cymunedol)
- Gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned
- Fforwm Byw'n Dda
- Bwrdd Ieuenctid Tai Ffres

Mae hyn yn ychwanegol at ddarparu adborth drwy arolygon misol Acuity o foddhad tenantiaid, sy'n cynnwys y cyfle i ymatebwyr wneud sylwadau; cymryd rhan mewn ymgyngoriadau a'r gwersi a ddysgir yn sgil cwynion.

Yn sgil y pandemig, gwnaethom newid i ddulliau ymgysylltu digidol, gan ddefnyddio ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i estyn allan i denantiaid ar bynciau penodol. Er mai dim ond nifer cyfyngedig o denantiaid a allai gymryd rhan, cawsom rhai llwyddiannau a chynhaliwyd sgyrsiau diddorol a heriol â thenantiaid ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys pennu rhent a thaliadau gwasanaeth.

Mae tenantiaid hefyd wedi bod yn ein helpu i ddatblygu atebion digidol. Cawsom gymorth gan denantiaid a oedd yn gwneud cais am dai i brofi ein porth ceisiadau digidol newydd er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben cyn iddo gael ei lansio.

Rydym hefyd wedi gwahodd tenantiaid i gymryd rhan ym mhrosiect Llywio Ein Dyfodol, gan fynd ati ar ddechrau 2022 i adolygu'r ffordd y bydd United Welsh yn gweithio yn y dyfodol a sut y bydd hynny'n effeithio ar ein tenantiaid.

Cymerodd tenantiaid ran yn y broses recriwtio ddiweddar i benodi Prif Weithredwr newydd ar gyfer y Grŵp, ac mae tenantiaid yn chwarae rhan weithredol hefyd yn y broses recriwtio ar gyfer ein gwasanaethau Thrive.

Rydym yn cynnal diwrnod rhwydweithio ar gyfer pob un o denantiaid newydd y Gwasanaeth Dychwelyd Pwrpasol. Caiff rhan fawr o'r diwrnod ei llywio gan yr unigolion eu hunain, wrth iddynt lywio eu cynlluniau rheoli risg a chymorth argyfwng eu hunain. O ran cynllun Heol Brynteg, caiff y gweithgareddau eu harwain gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Er enghraifft, pan oedd grŵp o denantiaid am fynd ar wyliau i Ddinbych-y-pysgod, cawsant gymorth gan y staff i drefnu hyn.

**Mae ein Harolwg o Ganfyddiadau Cwsmeriaid (y mae Acuity yn ei gynnal bob mis ar ein rhan) yn dangos y canlynol ar gyfer ~~Ch3~~ 2021-22:**

**Roedd 81%**

o denantiaid o'r farn ei bod hi'n 'hawdd delio â ni'. (Canolrif landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru 2022 67%)

**Mae 69%**

o denantiaid yn 'fodlon ein bod yn gwrando ar eu sylwadau ac yn gweithredu arnynt' (Canolrif landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru 2022: 67%)

**Roedd 80%**

o denantiaid yn fodlon bod United Welsh yn rhoi cyfle iddynt gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau. (Canolrif landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru 2022: 60%)

**Mae 69%**

o denantiaid yn fodlon bod United Welsh yn rhoi cyfle iddynt leisio'u barn ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu rheoli. (Canolrif landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru 2022: 62%)

Drwy gymharu â sefydliadau eraill yn ein sector drwy feincnodau Housemark a Llywodraeth Cymru, gallwn weld bod gennym le i wella yn y maes hwn, a dyna pam rydym yn newid y ffordd rydym yn gweithredu ac yn sefydlu grŵp Barn Tenantiaid i wneud y gorau o'r wybodaeth sydd ar gael i lywio gwelliannau i wasanaethau.

## 5. Mae rhenti a thaliadau gwasanaeth yn fforddiadwy

Ein hamcan, ni waeth beth fo'r lleoliad, yw sicrhau na fydd rhent a thaliadau gwasanaeth gyda'i gilydd yn fwy na 33% o incwm net. At y diben hwn, caiff incwm ei gyfrifo fel y Cyflog Byw Cenedlaethol wedi'i addasu ar gyfer treth ac Yswiriant Gwladol. Mae unrhyw renti sydd uwchlaw'r lefel fforddiadwy wedi cael eu rhewi a disgwyliwn i bob rhent fod yn fforddiadwy yn y pen draw. Rydym ym mlwyddyn olaf cyfnod lleihau rhenti o dair blynedd.

O ran datblygiadau newydd, pennir rhenti ar gyfer eiddo unigol yn seiliedig ar leoliad a maint yr eiddo, gyda'r rhent ar gyfer fflat un ystafell wely yn cael ei bennu ar lefel lle na ddylai'r rhent a'r tâl gwasanaeth gyda'i gilydd fod yn fwy na 33% o incwm net.

Mae lefelau ôl-ddyledion yn sefydlog, sy'n awgrymu bod rhenti yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o denantiaid. Ar ddiwedd mis Mawrth 2022, roedd cyfanswm yr ôl-ddyledion yn cyfateb i 3.55% o'r rhenti blynyddol a oedd yn ddyledus, sef cyfanswm gwerth o £1.3m (31-03-21: 3.76%, £1.3m). Y cyfartaledd ar draws y sector yng Nghymru ym mis Medi 2021 oedd 3.6%.

## 6. Dull strategol o ymdrin â gwerth am arian

Caiff ein dull o ymdrin â gwerth am arian ei grynhoi yn ein datganiad gwerth am arian cyhoeddedig sydd hefyd yn nodi metrigau sy'n dangos sut rydym wedi sicrhau gwerth am arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae gennym weithdrefnau caffael cadarn ac rydym yn defnyddio fframweithiau caffael fel y bo'n briodol. Caiff penderfyniadau'r Bwrdd eu cyflwyno yn erbyn canlyniad strategol penodol, a cheir trafodaeth ynghylch yr adnoddau gofynnol a'r effaith ar gwsmeriaid lle y bo'n berthnasol. Caiff meincnodau gwerth am arian ariannol eu cyflwyno i'r Tîm Gweithredol bob mis. Defnyddir amrywiadau i dynnu sylw at gostau y gall fod angen ymchwilio iddynt ymhellach.

**Canlyniadau Acuity 2021-22 (Arolwg o Ganfyddiadau Tenantiaid):**

**Roedd 83% o denantiaid**

yn fodlon ar y gwerth am arian a gynrychiolir gan y rhent a delir ganddynt (Maw-21: 84%; canolrif landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru 2022: 81%

**Roedd 67% o denantiaid**

yn fodlon bod taliadau gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian (Maw-21: 69%)

Gan fod y lefelau boddhad ar gyfer taliadau gwasanaeth wedi bod yn isel (gwnaethant ostwng i 63% yn ystod Ch1), cynhaliwyd adolygiad a oedd yn cynnwys edrych ar sut y caiff y taliadau gwasanaeth eu cyfrifo, pa wasanaethau a ddarperir, faint mae United Welsh yn ei ddarparu mewn cymorthdaliadau, a sut y caiff gwybodaeth am daliadau gwasanaeth ei rhannu â thenantiaid. O ganlyniad, mae lefelau boddhad o ran gwerth am arian yn cynyddu, gan fod tenantiaid yn cael gwell gwybodaeth am eu taliadau a mwy o gyfle i leisio'u barn ar y gwasanaethau a ddarperir.

## 7. Cynllunio a rheolaeth ariannol

Mae'r Tîm Gweithredol yn adolygu ein perfformiad ariannol bob mis ac yn cymharu'r alldro gwirioneddol â'n cyllideb ar gyfer y flwyddyn. Lle mae amrywiadau sylweddol wedi codi, mae'r Tîm yn chwilio am esboniadau a'r camau unioni a gymerwyd.

Mae'r Bwrdd yn adolygu perfformiad ariannol a'r ffordd rydym yn cyflawni Ein Strategaeth bob chwarter. Mae'r Bwrdd yn ystyried metrigau allweddol megis Elw Gweithredu ac yswiriant llog (hynny yw, y graddau y gallwn fforddio'r llog sy'n ddyledus ar ein benthyciadau). Mae'r naill a'r llall yn bwysig i'n benthycwyr.

O ran y tymor hwy, rydym yn paratoi Cynllun Busnes pum mlynedd a rhagolwg 30 mlynedd. Mae hyn yn ein helpu i gynllunio faint y bydd angen i ni ei fenthyg. Mae ein Strategaeth Trysorlys yn nodi'r hyn y bydd angen i ni ei fenthyg a sut y byddwn yn mynd ati i wneud hynny. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn craffu'n fanwl ar faterion Trysorlys.

Rydym yn monitro bob mis faint o arian parod sydd ar gael i ni, naill ai yn y banc neu ar ffurf benthyciadau y gallwn gael gafael arnynt yn gyflym. Y nod yw sicrhau bod gennym ddigon o arian parod ar gyfer o leiaf 18 mis o ymrwymiadau cyfalaf.

Cynhelir profion straen ar gynlluniau ariannol yn rheolaidd, gan gynnwys profion senarios 'sy'n rhesymol bosibl' a phrofion 'hyd yr eithaf'. Mae hyn yn ein galluogi i nodi ein terfynau a phennu trothwyon neu lefelau rhybudd – er enghraifft, y lefel uchaf o ran ôl-ddyledion.

## 8. Caiff asedau a rhwymedigaethau eu rheoli'n dda

Rydym yn cadw rhestr o'r prif grwpiau o asedau a rhwymedigaethau sy'n dangos beth ydynt a ble y gellir dod o hyd i gofnodion amdanynt.

Ein prif grŵp o asedau yw ein tai cymdeithasol. Rydym yn monitro trosiant a chost misol fesul uned tai cymdeithasol. Rydym yn rheoli ein stoc gyffredinol er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n bosibl, nad oes unrhyw eiddo yn aros yn wag am unrhyw gyfnod o amser.

Ar hyn o bryd, mae lefelau eiddo gwag ac amseroedd paratoi cyfartalog yn uwch na'r arfer oherwydd effeithiau parhaus y pandemig, gan gynnwys cyfnod lle nad oedd yn bosibl gosod eiddo. O ran eiddo anghenion cyffredinol, mae'r sefyllfa wedi gwella gan ein bod wedi cyflwyno proses osod ddigidol cyn gynted ag yr oedd modd gosod eiddo yn ôl yr arfer. O ran tai ar gyfer pobl hŷn, rydym yn parhau i wynebu heriau gan fod pobl yn fwy amharod i symud i leoliadau lle ceir grwpiau.

Yr amser paratoi ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 oedd 60 diwrnod, ar ôl addasu ar gyfer cyfnodau lle roedd cyfyngiadau symud ar waith (yr amser paratoi ar gyfartaledd yn 2020/21 oedd 44 diwrnod). Ar ddiwedd mis Mawrth, roedd 79 o eiddo gwag gennym (ar 31 Mawrth 2021: 96).

**Ymhlith yr enghreifftiau eraill o'r ffyrdd y caiff ein hasedau eu defnyddio at ddiben cymdeithasol mae'r canlynol:**

- Mae ein cynlluniau Byw'n Dda yn cynnal gweithgareddau megis côr rhwng y cenedlaethau, sef partneriaeth rhyngom ni ac ysgol leol yn Wesley House. Daw Glowyr Caerffili i mewn i gynnal gweithgareddau, mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cefnogi prosiectau'n ymwneud â gerddi a, chyn y pandemig, roedd grwpiau plant bach lleol hefyd yn defnyddio gofod cymunedol yn ein cynlluniau Gofal Ychwanegol.
- Mae prosiectau fel y prosiect llesiant celf yn Oak House yn helpu preswylwyr a myfyrwyr lleol.
- Caiff un fflat mewn cynllun Byw'n Dda ei phrydlesu fel cartref Cariad h.y. mae ar gael i'r bwrdd iechyd ei defnyddio fel llety gofal llai dwys ar gyfer pobl hŷn sy'n gadael yr ysbyty, i'w paratoi i ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain.
- Caiff un eiddo yng Nglynebwy ei ddefnyddio fel Canolfan Dai mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent.
- Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn denantiaid yn ein pencadlys, Y Borth.
- Mae canolfan deleofal ym Mhlas Hyfryd (Gofal Ychwanegol) sy'n cael ei rhedeg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
- Mae gennym dri eiddo a adeiladwyd at ddibenion penodol ar gyfer sefydliadau partner – Canolfan Ddydd Coed y Cwm i Bobl Awtistig; Canolfan Iechyd Bargoed a Chapel Hanbury, a ddefnyddir fel hwb cymunedol lleol sy'n cael ei redeg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
- Rydym wedi chwarae rhan fawr yn y gwaith o ailgynllunio gwasanaethau digartrefedd yng nghanol dinas Caerdydd sydd wedi arwain at addasiadau rheoli a ffisegol sylweddol i amrywiaeth o eiddo mawr gan gynnwys Baileys Court ac Adams Court. Rydym hefyd yn ffurfio partneriaethau ag awdurdodau lleol yn rheolaidd i ddatblygu cynlluniau newydd sy'n mynd i'r afael â phwysau digartrefedd, gan adeiladu unedau llety pwrpasol yn aml.

## 9. Llety o ansawdd da

Mabwysiadodd y Bwrdd egwyddorion sero net lefel uchel ym mis Chwefror 2020, a ddatblygwyd fel rhan o'n Cynllun Carbon Tuag at Sero Net ym mis Medi 2020. Mae rhan o'r cynllun hwnnw yn cynnwys defnyddio arian grant i adeiladu cartrefi newydd nad ydynt ar y grid nwy ac sydd â Thystysgrif Perfformiad Ynni A erbyn 2025.

Mae gennym un o'r sgoriau SAP cyfartalog uchaf yn y sector yng Nghymru, sef 81.23, ac mae gan fwy na 95% o'n stoc sgôr SAP o 70 neu fwy (sgôr yn Maw-21: 81.17).

Caiff data ar gyflwr y stoc eu casglu'n barhaus ac, ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar eiddo y cofnodwyd Methiannau Derbyniol o ran SATC ar eu cyfer. Mae arolygon wrthi'n cael eu cynnal hefyd i asesu eiddo y gall fod angen gwneud gwaith ôl-osod arno o ran effeithlonrwydd ynni. Rhoddwyd y gorau i bob math o waith tirfesur yn ystod prif gyfnodau'r cyfyngiadau symud yn 2020 a 2021 er mwyn diogelu tenantiaid a syrfewyr.

Mae gennym raglen o waith adnewyddu ar gyfer cynlluniau Byw'n Dda (llety gwarchod i bobl hŷn) a disgwylir i ddau gael eu cwblhau tuag at ddiwedd 2021/22.

Lle y bo'n briodol, rydym yn defnyddio cartrefi newydd a gaiff eu hadeiladu o baneli fframiau pren oddi ar y safle, gan leihau carbon gweithredol ac ymgorfforedig. Sefydlwyd ein huned fusnes newydd sy'n gweithgynhyrchu paneli fframiau pren, Celtic Offsite, yn 2021 gan ddefnyddio benthyciad gan Lywodraeth Cymru.

Ym mis Rhagfyr 2021, dyfarnwyd safon ISO9001 i Celtic Offsite, sef safon rheoli ansawdd gydnabyddedig sy'n seiliedig ar nifer o egwyddorion rheoli ansawdd gan gynnwys ffocws cryf ar y cwsmer. Yn ogystal, mae Celtic Offsite wedi ennill achrediad Aur y Gymdeithas Pren Strwythurol a thystysgrif Cadwyn Gwarchodaeth y Rhaglen Cymeradwyo Ardystiad Coedwigoedd (PEFC).

| Safon rheoleiddio | Camau gweithredu ar gyfer gwella | Dyddiad cwblhau disgwyliedig |
|---|---|---|
| **SR1 Mae gan y sefydliad drefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a bodloni ei amcanion** | Cynnwys unrhyw newidiadau sy'n ofynnol o ganlyniad i'r adolygiad yn erbyn Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru yng Nghynllun Gwella Llywodraethu 2022. | Ebrill 2022 |
| | Parhau â'r gwelliannau a nodir yn ein Cynllun Gweithredu Gweithredoedd nid Geiriau: | |
| | • Cynnwys ein harfer o graffu ar restrau byr yn ein polisi Recriwtio er mwyn sicrhau y caiff ymgeiswyr ethnig lleiafrifol eu cyfweld ar gyfer pob swydd a hysbysebir os caiff pob maen prawf hanfodol ei fodloni. | Ebrill 2022 |
| | • Cyflwyno adroddiad blynyddol ar y bwlch cyflog o ran ethnigrwydd a data ethnigrwydd o ran recriwtio, dyrchafu a chadw staff, a gweithredu ar y canfyddiadau. | Mehefin 2022 |
| | Adeiladu ar Gynllun Gwella Llywodraethu 2022 yn seiliedig ar ganlyniadau adolygiad y Bwrdd o effeithiolrwydd yn 2022. | Ebrill 2022 |
| | Datblygu cyfranogiad tenantiaid ymhellach wrth recriwtio ar gyfer Thrive. | Medi 2022 |
| | Tai Ffres: | |
| | • Uno'r bwrdd ieuenctid â bwrdd llawn y prosiect. | Mawrth 2022: cwblhawyd |
| | • Datblygu bwrdd tenantiaid – er mwyn cael barn weithredol go iawn ar y gwasanaethau a ddarperir. | Medi 2022 |
| | • Dechrau gweithio gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru er mwyn ystyried model mwy cydgynhyrchiol/cydweithredol ar gyfer tai i bobl ifanc. | Medi 2022 |

| Safon rheoleiddio | Camau gweithredu ar gyfer gwella | Dyddiad cwblhau disgwyliedig |
|---|---|---|
| **SR1 Mae gan y sefydliad drefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a bodloni ei amcanion** | Rhoi newidiadau ar waith i gydymffurfio â Deddf Rhentu Cartrefi Cymru. | 1 Rhagfyr |
| | Creu system rheoli achosion i ddigideiddio adolygiadau o gynlluniau blynyddol asiantiaid rheoli. | Rhagfyr 2022 |
| **SR2: Mae trefniadau cadarn ar waith i reoli risg a rhoi sicrwydd** | Diweddaru Cofrestr Risg Celtic Offsite er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y cyfnod paratoi wedi dod i ben a bod y gwaith gweithgynhyrchu bellach yn mynd rhagddo. | Mehefin 2022 |
| | Cwblhau'r gwaith o ddiweddaru'r Cynllun Adfer ar ôl Trychineb a'r canllawiau ar lefelau rhybudd. | Medi 2022 |
| **SR3: Darperir gwasanaethau o ansawdd uchel i denantiaid** | Mae cyfreithwyr wedi cael eu comisiynu i gynnal adolygiad o'r contract partneriaeth rheoli asedau gan gyfeirio'n benodol at y ffordd y mae angen i'r broses o adrodd ar gydymffurfiaeth landlordiaid a phrosesau gweithredol cysylltiedig gael eu datblygu er mwyn ystyried newidiadau deddfwriaethol diweddar a newidiadau deddfwriaethol sydd ar ddod. | Mehefin 2022 |
| | Parhau i gyflawni ymrwymiadau Gweithredoedd nid Geiriau:<br><br>• Gwahanu data ethnigrwydd a data ar foddhad cwsmeriaid er mwyn dysgu a gwella profiadau pobl – y cam cyntaf yw pennu cwmpas ar y cyd ag Acuity. | Mai 2022 |

| Safon rheoleiddio | Camau gweithredu ar gyfer gwella | Dyddiad cwblhau disgwyliedig |
| --- | --- | --- |
| **SR3: Darperir gwasanaethau o ansawdd uchel i denantiaid** | Gwella'r ffordd y defnyddir data ar denantiaid a data ar y busnes er mwyn gwella'r trefniadau i gael gwybod barn tenantiaid a thrwy hynny wella'r gwasanaethau a gynigir: | |
| | • Sefydlu Grŵp Barn Tenantiaid. | **Ebrill 2022** |
| | • Y grŵp i wneud ei gyflwyniad rheolaidd cyntaf i'r Grŵp Cynllunio Busnes er mwyn i arweinwyr gwasanaethau ystyried y data/adborth, myfyrio arnynt ac ymateb iddynt. | **Mai 2022** |
| | • Creu ap a phorth ar gyfer y staff i ddarparu proses wedi'i digideiddio ar gyfer gwneud cais, ymdrin â thenantiaethau a darparu cymorth mewn perthynas â llety Tai Ffres. | **Medi 2022** |
| | Creu system rheoli achosion sydd wedi'i chynllunio'n benodol i ddigideiddio'r gwasanaeth Byw'n Dda. | **Rhagfyr 2022** |
| | Byw'n Dda i dreialu fflatiau dynodedig lle gellir cadw anifeiliaid anwes mewn ymateb i'r adolygiad diweddar o'r polisi anifeiliaid anwes. | **Mai 2022** |
| | Rhoi cynllun gweithredu LHDTC+ Byw'n Dda ar waith: | |
| | • Sefydlu grŵp llywio | **Mai 2022** |
| | • Rhoi camau gweithredu ar waith | **I'w gadarnhau** |
| | Cynyddu nifer ein hunedau o dan gynllun Cariad i ddarparu llety gofal mwy dwys / llai dwys er mwyn i bobl osgoi cael eu derbyn i ysbytai / lleoliadau gofal neu helpu i'w rhyddhau yn gyflymach. | **Medi 2022** |
| | Cofrestru ag AGC er mwyn diwallu anghenion pobl â phroblemau iechyd meddwl cymhleth ymhellach, gan ymateb i anghenion y bwrdd iechyd. | **Medi 2022** |

| Safon rheoleiddio | Camau gweithredu ar gyfer gwella | Dyddiad cwblhau disgwyliedig |
|---|---|---|
| **SR3: Darperir gwasanaethau o ansawdd uchel i denantiaid** | Rhoi cynllun gweithredu LHDTC+ Byw'n Dda ar waith:<br><br>• Sefydlu grŵp llywio<br><br>• Rhoi camau gweithredu ar waith | <br><br><br>**Mai 2022**<br><br>**I'w gadarnhau** |
| | Cynyddu nifer ein hunedau o dan gynllun Cariad i ddarparu llety gofal mwy dwys / llai dwys er mwyn i bobl osgoi cael eu derbyn i ysbytai / lleoliadau gofal neu helpu i'w rhyddhau yn gyflymach. | **Medi 2022** |
| | Cofrestru ag AGC er mwyn diwallu anghenion pobl â phroblemau iechyd meddwl cymhleth ymhellach, gan ymateb i anghenion y bwrdd iechyd. | **Medi 2022** |
| | Tai Ffres – datblygu systemau adborth priodol. Gwerthusiad academaidd llawn o'r broses o roi'r gwasanaeth ar waith, ei baratoi a'i ddarparu – ymchwil â chymorth cyfoedion a gefnogir gan Brifysgol Caerdydd. Nodi ffyrdd o roi adborth ar y cyd â phobl ifanc:<br><br>• Gwneud cais am arian y Loteri Genedlaethol<br><br>• Os yw'n llwyddiannus, bydd y prosiect yn dechrau | <br><br><br><br><br><br><br>**Ebrill 2022**<br><br>**Gorffennaf 2022** |
| | Cyflawni'r ymrwymiad yn fframwaith nodau, amcanion a chanlyniadau Tai Ffres i fod yn agored, yn onest ac yn dryloyw ynghylch perfformiad gwasanaeth Tai Ffres:<br><br>• Cyhoeddi'r gyfres gyntaf o ddata perfformiad. | <br><br><br><br><br>**Ionawr 2023** |

| Safon rheoleiddio | Camau gweithredu ar gyfer gwella | Dyddiad cwblhau disgwyliedig |
|---|---|---|
| **SR4: Caiff tenantiaid eu grymuso a'u cefnogi i lywio a dylanwadu ar wasanaethau** | Datblygu strategaeth ymgysylltu â thenantiaid, yn benodol er mwyn:<br><br>• Sicrhau y gall tenantiaid lywio a dylanwadu ar y broses o ddarparu gwasanaethau sy'n cael effaith uniongyrchol arnynt, e.e. cynhesrwydd fforddiadwy, gwaith atgyweirio a gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd, a chyfathrebu â ni.<br><br>• Galluogi tenantiaid i ddatblygu, gwella a dylanwadu ar y cymunedau y maent yn byw ynddynt drwy ddull datblygu cymunedol yn seiliedig ar asedau.<br><br>• Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y cymunedau a wasanaethir gennym.<br><br>• Creu amrywiaeth o gyfleoedd arloesol a fydd yn galluogi tenantiaid i lywio a dylanwadu ar wasanaethau'r Gymdeithas yn y dyfodol, wyneb yn wyneb ac yn ddigidol. | **Medi 2022** |
| | Ymgysylltu â'n tenantiaid a'n meysydd busnes craidd – byddwn yn sefydlu amrywiaeth eang o ddulliau ymgysylltu sy'n diwallu anghenion ac yn cyflawni dyheadau'r ddwy ochr. | **Medi 2022** |
| | Byddwn yn hyrwyddo dulliau ymgysylltu y cytunwyd arnynt ac yn annog cyfranogiad gan amrywiaeth eang o denantiaid, gyda'r nod o sicrhau bod y tenantiaid hynny yn adlewyrchu eu cymunedau a'n sylfaen tenantiaid ehangach (e.e. lleoliadau, math o lety, nodweddion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant). | **Medi 2022** |
| | Tai Ffres - sicrhau y caiff y strategaeth cynnwys ac ymgysylltu ar gyfer Tai Ffres ei llunio ar y cyd â phobl ifanc. | **Ionawr 2023** |

| Safon rheoleiddio | Camau gweithredu ar gyfer gwella | Dyddiad cwblhau disgwyliedig |
|---|---|---|
| **SR4: Caiff tenantiaid eu grymuso a'u cefnogi i lywio a dylanwadu ar wasanaethau** | Datblygu ein cymuned o denantiaid sy'n cymryd rhan er mwyn cefnogi United Welsh drwy wneud y canlynol: | |
| | • Cynyddu nifer y tenantiaid sy'n cymryd rhan (monitro'n chwarterol). | **Rhagfyr 2022** |
| | • Sicrhau bod y gymuned honno o denantiaid sy'n cymryd rhan yn cynrychioli ein cymunedau amrywiol (monitro'n chwarterol). | **Rhagfyr 2022** |
| | • Ffurfioli rolau'r tenantiaid hynny sy'n cymryd rhan drwy lunio polisi a gweithdrefn gwirfoddoli a phroffiliau rôl; sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael y cymorth a'r adnoddau priodol, ynghyd â'r gydnabyddiaeth briodol ar gyfer eu cyfraniad. | **Mawrth 2023** |
| **SR5: Mae rhenti a thaliadau gwasanaeth yn fforddiadwy i denantiaid presennol a darpar denantiaid** | Adolygu ein proses gyfredol o bennu rhenti Byw'n Dda er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried fforddiadwyedd. | **Hydref 2022** |
| **SR6: Mae gan y sefydliad ddull strategol o ymdrin â gwerth am arian sy'n llywio ei holl gynlluniau a gweithgareddau** | Cwblhau'r broses o roi'r argymhellion a nodwyd yn yr adolygiad o daliadau gwasanaeth ar waith: | |
| | • Sefydlu panel taliadau gwasanaeth (tenantiaid, lesddeiliaid a pherchen-feddiannwyr) i lywio'r gwasanaethau a ddarperir a chyngori ar ffyrdd o gyfathrebu am daliadau gwasanaeth. | **Gorffennaf 2022** |
| | • Datblygu ein hap i denantiaid i gynnwys porth ar gyfer rhoi adborth a gwneud cwynion am daliadau gwasanaeth. | **I'w gadarnhau** |
| | • Datblygu modiwl dysgu ar daliadau gwasanaeth ar gyfer staff United Welsh a Celtic Horizons. | **Medi 2022** |

| Safon rheoleiddio | Camau gweithredu ar gyfer gwella | Dyddiad cwblhau disgwyliedig |
|---|---|---|
| **SR7: Mae'r cynllunio a'r rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn effeithiol** | Cynnwys gwybodaeth am yr hyn a wariwyd ar ddatgarboneiddio ac atgyweiriadau mawr yn yr adroddiadau perfformiad ariannol a gyflwynir i'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd. | Mai 2022 |
| | Cynnwys naratif manylach mewn perthynas â rhagolygon ariannol Celtic Offsite a'r effaith y gallai ei chael ar y cynllun busnes cyffredinol mewn adroddiadau perfformiad ariannol i'r Bwrdd. | Gorffennaf 2022 |
| **SR8: Caiff asedau a rhwymedigaethau eu rheoli'n dda** | Cwblhau'r gwaith o roi AssetCore ar waith i gofnodi eiddo, teitlau eiddo a gwybodaeth am ddiogelwch, gan sefydlu proses adrodd reolaidd i fonitro sicrwydd benthyciadau. | Mehefin 2022 |
| **SR9: Mae'r sefydliad yn darparu llety o ansawdd uchel** | Parhau i roi Cynllun Carbon Tuag at Sero Net ar waith, a fydd yn cynnwys datblygu ein strategaeth ar gyfer prosiectau ôl-osod wedi'u hoptimeiddio. Y cam cyntaf yw rheoli data:<br><br>• Cydnabyddir bod system rheoli asedau Lifespan yn cynnwys symiau mawr o ddata anghyson, anghywir a diangen. Byddwn yn cynnal ymarfer i adolygu a glanhau'r holl ddata a ddelir yn Lifespan a fydd yn ei gwneud hi'n haws i ni gynhyrchu gwybodaeth ddefnyddiol i dargedu gweithgarwch cynllunio buddsoddiadau yn y meysydd cywir. | Mawrth 2023 |